Heneb

## Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru

## Cod Ymarfer ar gyfer Rhoi Cyngor Archaeolegol

### Cyflwyniad

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru (Heneb o hyn ymlaen) ar Ebrill 1af, 2024, ar ôl uno pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol rhanbarthol Cymru, a sefydlwyd yn wreiddiol yng nghanol y 1970au. Mae'n gwmni cyfyngedig annibynnol ac yn elusen gofrestredig[1]. Mae Heneb yn cyflogi staff archaeolegol proffesiynol o fewn y pedwar rhanbarth, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor am yr amgylchedd hanesyddol ar draws Cymru gyfan.

Sefydliad wedi'i gofrestru â'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr (CIfA) yw Heneb. Mae'r prif aelodau staff a phenaethiaid y timau yn Aelodau llawn o'r CIfA ac felly yn gorfod cydymffurfio â'i God Ymddygiad, ei reoliadau, ei safonau a'i ganllawiau.[2] Disgwylir i aelodau'r CIfA ddilyn yr egwyddorion a nodir yng nghanllawiau CifA, ble bynnag maent yn gweithio ac ym mha rinwedd bynnag, yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol a gofynion lleol.

Mae Heneb yn aelod o Gymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol: y DU a Chymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol: Cymru.

Mae gwaith Heneb yn cynnwys: cadw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol[3] statudol (Ymddiriedolaeth elusennol ar wahân) ar ran Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023; darparu cyngor archaeolegol penodol a chyngor arall ar yr amgylchedd hanesyddol, a rhoi cynlluniau ar waith i asesu neu leddfu effaith datblygiad ar olion archaeolegol.

Gall amgylchiadau godi pan fydd Heneb yn rhoi cyngor ar faterion archaeolegol a materion eraill ar yr amgylchedd hanesyddol fel rhan o'r broses gynllunio neu fframweithiau rheoliadol eraill (swyddogaeth *cynghorwr*) ac yn cyflawni gwaith sy'n deillio o'r cyngor hwnnw (swyddogaeth *ymarferydd*). Darperir cyllid ar gyfer y gwaith cynghori drwy grantiau Llywodraeth Cymru yn bennaf a'i weinyddu drwy Cadw a chymorth ariannol yr Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae Heneb, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru yn cydweithio er mwyn sicrhau y rhoddir cyngor ar faterion archaeolegol a materion eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gan bobl gymwys.

Mae'r gwaith a wneir gan swyddogaeth ymarferydd Heneb (Gwasanaethau Maes) yn cael ei dalu gan y parti sy'n comisiynu.

[1] Cwmni cyfyngedig (1198990), Elusen Gofrestredig (504616)
[2] https://archaeologists.net/work/standardsCIfA Côde of Conduct, regulations, standards and guidance
[3] Mae'r Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol mewn ymddiriedolaeth elusennol ar wahân a grëwyd gan yr Ymddiriedolaethau Archaeolegol rhanbarthol yng Nghymru yn 2008

### Polisïau Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Nodir polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn Polisi Cynllunio Cymru[4] a'r cyngor technegol cysylltiedig[5]. Mae'r rhain yn sefydlu gwerth diwylliannol, economaidd a chymdeithasol yr amgylchedd hanesyddol a rôl cynghorwyr archaeolegol wrth gefnogi'r system gynllunio yn ei dyletswydd i ddiogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn briodol.

### Diben y Cod Ymddygiad hwn

Mae'r Cod Ymarfer hwn, a luniwyd ar gais Llywodraeth Cymru, yn nodi'r gweithdrefnau y bydd Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru yn eu dilyn i sicrhau bod rhaniad clir rhwng eu rolau fel cynghorwr ac ymarferydd fel na cheir gwrthdaro buddiannau. Mae'n ategu, yn hytrach na disodli, codau ymarfer, codau ymddygiad, a safonau a chanllawiau eraill a ddefnyddir wrth ymarfer archaeoleg yn broffesiynol.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r cyngor a roddir ar wahân ar yr amgylchedd hanesyddol gan Heneb, yn enwedig rhoi cyngor ar reoli datblygiadau a rheoli gwaith yn y broses Cynllunio Gwlad a Thref a phrosesau cynllunio cenedlaethol. Mae hefyd yn gymwys lle rhoddir cyngor tebyg mewn perthynas â datblygiadau neu weithgareddau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y prosesau hyn, ond a allai effeithio ar fuddiannau amgylchedd hanesyddol.[6]

### Egwyddorion y Cod Ymarfer i Gynghorwyr

Yr egwyddorion a'r arferion a fabwysiedir gan Heneb ar gyfer rhoi cyngor yw'r rhai sy'n ofynnol gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr[7].

Mae'r safonau'n nodi:

> *'Archaeological advice on the historic environment must aim to benefit the public both now and, in the future, through management and advancement of understanding. It will contribute to the achievement of sustainable development and the realisation of social, environmental or economic benefits.*
>
> *Advice must be clear, consistent, compliant, reasonable, timely, informed and impartial, and should be proportionate to a reasoned and clearly documented assessment of known or potential significance.*
>
> *Advice must be provided by suitably qualified, skilled and competent advisors and based on an up-to-date and publicly accessible information base maintained to nationally agreed standards.'*

---

[4] Polisi Cynllunio Cymru yn enwedig Pennod 6 Mannau Neilltuol a Naturiol Polisi Cynllunio Cymru

[5] Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amglychedd Hanesyddol Nodyn Polisi Cynllunio Cymru 24 Mai 2017

[6] Er enghraifft gwaith a wneir ar Ystadau'r Goron, neu sy'n destun prosesau rheoleiddio a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, neu o dan cyfundrefnau rheoli amaethyddol neu goedwigoedd penodol.

[7] Safon a chanllawiau ar gyfer cyngor archaeolegol gan wasanaethau amgylchedd hanesyddol Cyngor CIfAS&GArch a Datganiad CIfA ar rôl y cynghorwr archaeolegol

### Gweithredu'r Cod Ymarfer hwn

Caiff y Cod Ymarfer hwn ei weithredu gan Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru a'i adolygu o bryd i'w gilydd gyda Cadw.

Dylid tynnu sylw Heneb yn y lle cyntaf at unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r cod hwn, ac yna Cadw os oes angen.

Dylid tynnu sylw Prif Swyddog Gweithredol Heneb yn y lle cyntaf am unrhyw honiadau o gamymddwyn proffesiynol a/neu fethiant i fodloni Cod Ymddygiad, safonau neu ganllawiau'r CIfA, ac os yn briodol, y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr[8].

## Cod Ymarfer[9]

1. Caiff swyddogaethau cynghorwr ac ymarferydd eu cyflawni'n annibynnol gan adrannau neu dimau a reolir ar wahân o fewn Heneb.

2. Bydd y cynghorwyr yn Heneb yn rhoi cyngor gwybodus, diduedd, annibynnol a phroffesiynol ar y goblygiadau ac effaith datblygiadau neu weithgareddau arfaethedig ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd yr holl gyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.

3. Caiff yr holl wybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a roddir i gynghorwyr neu gan gynghorwyr Heneb ei rheoli'n ddiogel er mwyn cynnal cyfrinachedd.

4. Ar gyfer gwaith rheoli datblygiadau a chynghori ar yr amgylchedd hanesyddol, bydd cynghorwyr yn trin swyddogaethau ymarferydd o fewn Heneb yn yr un modd â'r holl ymarferwyr eraill. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chyfnewid mewn ffordd a fyddai'n cael ei hystyried fel ffafriaeth o fewn Heneb.

5. Bydd cynghorwyr Heneb yn cyfeirio unrhyw un sy'n gwahodd tendrau am waith archaeolegol at ffynonellau gwybodaeth annibynnol priodol i'w galluogi i ddethol ymarferwyr archaeolegol cymwys addas.

6. Mae cynghorwyr Heneb yn cydnabod y bydd y rhai sy'n bwriadu comisiynu gwaith archaeolegol yn awyddus efallai i benodi ymgynghorydd archaeolegol annibynnol fel eu cynghorwyr eu hunain, a allai, ar ran eu cleient, baratoi neu asesu cynllun ymchwilio ysgrifenedig, dylunio prosiect neu fanyleb gwaith y bwriedir iddynt fodloni briff archaeolegol; i fonitro cynnydd gwaith archaeolegol; neu i roi cyngor ar argymhellion ar gyfer camau gweithredu pellach. Nid yw hyn yn disodli'r gwasanaeth cynghori a ddarperir gan Heneb i gyrff sy'n gwneud penderfyniadau ac ar eu rhan.

7. Bydd cynghorwyr Heneb yn darparu asesiad proffesiynol diduedd ac yn cymeradwyo briffiau archaeolegol, dyluniadau prosiectau, cynlluniau ymchwilio ysgrifenedig, a'r gwaith a'r adroddiadau archaeolegol dilynol, waeth beth fo'r trefniadau cyflawni cytundebol.

---

[8] Ymddygiad proffesiynol a gweithdrefnau cwyno | Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr

[9] Cyhoeddwyd y Côd Ymarfer hwn am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 1997; cafodd ei ddiweddaru a'i ddiwygio yn 2016 a 2025.

**Rhestr Termau a Diffiniadau o’r Termau[10]**

### Cynghorwr Archaeolegol

Unigolyn neu sefydliad sydd â chymwysterau a phrofiad priodol sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth archaeolegol am yr amgylchedd hanesyddol tirol a morol a ddynodwyd a nas dynodwyd. Gall cynghorwr gael ei gyflogi gan awdurdod lleol, corff neu reoleiddiwr treftadaeth genedlaethol, ymddiriedolaeth elusennol, parc cenedlaethol neu gorff cyhoeddus arall neu wedi’i gontractio i gorff o'r fath.

### ALGAO (Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol)

Mae'r Gymdeithas yn darparu fforwm sy'n cynrychioli archaeolegwyr sy'n gweithio i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ledled y DU. Cymdeithasau cenedlaethol cydrannol ALGAO yw ALGAO: Lloegr, ALGAO: Yr Alban ac ALGAO: Cymru. Mae ei aelodau yn uwch archaeolegwyr sydd wedi'u cyflogi gan awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol (neu eu contractio gan y cyrff hyn) i roi cyngor ar gadwraeth a rheolaeth archaeolegol.

### Asesiad Archaeolegol

Asesiad o'r adnodd archaeolegol hysbys neu bosibl o fewn ardal neu safle penodol (ar dir, yn rhynglanwol neu’n forol), sy'n cynnwys casglu gwybodaeth ysgrifenedig a graffig sy'n bodoli’n barod, er mwyn nodi cymeriad tebygol, maint ac ansawdd cymharol yr adnodd gwirioneddol neu bosibl.

### Archaeolegol

Yn ymwneud â'r gwaith o ymchwilio i olion materol gweithgarwch dynol yn y gorffennol.

### Cyngor Archaeolegol

Cyngor arbenigol sy'n seiliedig ar wybodaeth archaeolegol ac sy'n anelu at wella dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol a'r ffordd y caiff ei reoli. Mae cyngor archaeolegol yn seiliedig ar sylfaen wybodaeth gyfoes ac ar werthfawrogiad o arwyddocâd.

### Ymgynghorydd Archaeolegol

Sefydliad neu unigolyn sy'n darparu dadansoddiadau a chyngor archaeolegol arbenigol. Nid yw'r term yma yn gymwys i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ymchwilio yn y maes a gwasanaethau lledaenu.

### Ymarferydd Archaeolegol

Sefydliad neu unigolyn sy'n gwneud gwaith ymchwilio, dadansoddol neu arbenigol wrth y ddesg ac yn y maes ar safleoedd archaeolegol, arteffactau, neu adeiladau hanesyddol, fel rhan o'r broses ddatblygu fel arfer, ac a fydd yn paratoi adroddiadau a chyhoeddiadau perthnasol ar y gwaith hwnnw.

### Briff

Dogfen sy’n cael ei pharatoi gan y cynghorwr ar ran awdurdod cynllunio lleol neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau sy'n amlinellu’r gofynion cyffredinol ar gyfer gwaith sydd i'w wneud er mwyn cefnogi cais cynllunio neu gais arall.

### Cadw

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru Amdanom ni | GOV.WALES ac Amdanom ni | Cadw.

---

[10] Y diffiniadau yw'r rhai a ddiffinnir gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr, neu rai sydd wedi'u seilio'n agos arnynt, yn eu Safonau a'u Canllawiau cyhoeddedig neu mewn atodiadau i'r Safonau a'r Canllawiau hynny.

### CIfA (Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr)

Mae'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr (CIfA) yn hyrwyddo arfer archaeoleg a disgyblaethau cysylltiedig drwy hyrwyddo safonau proffesiynol a moeseg ar gyfer diogelu, rheoli, deall a hyrwyddo mwynhad o dreftadaeth.

### Cymwys

Gall unigolion cymwys gyflawni'r gweithgareddau o fewn galwedigaeth neu swyddogaeth i'r safonau a ddisgwylir ym maes cyflogaeth. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr (CIfA) yn asesu cymhwysedd technegol a moesegol o fewn ei weithdrefn cais am aelodaeth, gan bennu gradd aelodaeth yn unol â chymhwysedd galwedigaethol yr unigolyn. Asesir cymhwysedd sefydliadau archaeolegol drwy Gynllun Sefydliadau Cofrestredig CIfA.

### Gwerthuso

Rhaglen gyfyngedig o waith maes anymwthiol a/neu ymwthiol sy'n nodi presenoldeb neu absenoldeb nodweddion, strwythurau, dyddodion, arteffactau neu ecoffactau archaeolegol o fewn ardal neu safle penodol ac sy'n diffinio, os ydynt yn bresennol, eu cymeriad, eu maint a'u hansawdd cymharol. Mae'n ei gwneud yn bosibl i'w harwyddocâd gael ei hasesu mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel y bo'n briodol.

### Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Gwasanaethau gwybodaeth yw'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a ddylai roi mynediad at adnoddau cynhwysfawr a dynamig sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol ardal ddaearyddol ddiffiniedig er budd y cyhoedd ac i'w defnyddio gan y cyhoedd. Fel arfer, maent yn cynnwys cronfeydd data sydd wedi'u cysylltu â system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) a deunydd cyfeirio cysylltiedig, ynghyd ag adnodd staffio penodol. Caiff Cofnod Amgylchedd Hanesyddol effeithiol ei gynnal a'i gadw a'i ddiweddaru'n rheolaidd a bydd yn hygyrch i'r cyhoedd.

### Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol

Gwasanaeth a ddarperir gan awdurdod lleol, parc cenedlaethol, ymddiriedolaeth elusennol neu gorff cyhoeddus nid er elw arall, neu a gomisiynir gan gorff o'r fath, a all nodi, cofnodi, diogelu, cyflwyno a dehongli'r amgylchedd hanesyddol ac asedau treftadaeth ardal ddaearyddol benodol.

### Diduedd

Bod yn annibynnol ar unrhyw fuddiant cytundebol, masnachol neu unrhyw fuddiant croes posibl arall.

### Dyluniad Prosiect

Datganiad ysgrifenedig ar amcanion prosiect, gan gynnwys dulliau, amserlen ac adnoddau. Mae'r rhain yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer cyflawni pob cam o'r prosiect nes iddo gael ei gwblhau, ac fe'u nodir yn ddigon manwl fel y gellir eu mesur, eu gweithredu a'u monitro.

### Manyleb

Datganiad dull manwl a gaiff ei lunio gan ymgeisydd (neu'n fwy cyffredin, eu hymgynghorydd neu ymarferydd archaeolegol), mewn ymateb i frîff neu amod a roddir gan awdurdod cynllunio lleol. Ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r fanyleb (a elwir weithiau'n gynllun ymchwilio ysgrifenedig), dyma gwmpas y gwaith y caiff gwaith archaeolegol ei fonitro yn ei erbyn a chaiff amodau cynllunio eu cyflawni.

**Deddfwriaeth, Rheoliadau, a Chodau a Safonau Ymarfer Proffesiynol Cefndir**

Dylid cymryd bod y rhestr ganlynol yn cynnwys gorchmynion diwygio cysylltiedig ac is-ddeddfwriaeth. Dylid nodi bod fersiynau'n cael eu diweddaru a'u hailgyhoeddi'n rheolaidd. Dylai defnyddwyr gadw golwg am y fersiwn ddiweddaraf.

Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

Deddf Trysorau 1996

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973

Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986

Deddf Claddu 1857

Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 12, 2024

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Mai 2017

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017

Canllawiau Cyffredinol Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth (Cymru) 2017

ALGAO UK Croeso | ALGAO ac Archaeoleg mewn llywodraeth leol | ALGAO

Cod Ymddygiad, Rheoliadau, Safonau a Chanllawiau'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr | CIfA

Safonau a Chanllawiau Cenedlaethol ar Arferion Gorau ar gyfer Casglu ac Adneuo Archifau Archaeolegol yng Nghymru

Canllawiau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar gyfer Archifo Digidol

Deddf Trysorau 1996: Cod Ymarfer (3ydd Fersiwn) - GOV.UK

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC 016/2014 Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu

Polisi Codi Ffioedd am Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Heneb

Polisi Gwybodaeth Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Heneb

Canllawiau Heneb ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru